Home Office

# Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio

## Canllawiau statudol i'r heddlu

Ebrill 2024

# Cynnwys

## Adran

Adran 1 – Statws a diben y ddogfen hon ........ 3

Adran 2 - Gwneud cais am orchymyn neu orchymyn dros dro ........ 5

Adran 3 –Cyflwyno Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio ........ 18

Adran 4 – Rheoli gwrthrych gorchymyn neu orchymyn dros dro ........ 19

Adran 5 – Amrywio, adnewyddu neu ryddhau gorchymyn neu orchymyn dros dro ........ 24

Adran 6 – Apeliadau ........ 24

Adran 7 – Cymorth Cyfreithiol ........ 25

Atodiad A - Deall Stelcio ........ 26

Annex B – Stalking Protection Act 2019 ........ 38

Annex C – Stalking offences ........ 48

Atodiad D – Gwasanaethau cymorth stelcio ........ 51

Atodiad E – Canllawiau pellach ar stelcio ........ 52

## Adran 1 – Statws a diben y ddogfen hon

**Cyflwyniad**

1. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 ar 15 Mawrth 2019. Mae'r ddeddf yn cyflwyno Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio sifil newydd. Mae'r gorchymyn newydd yn cau'r bwlch yn y drefn gorchymyn diogelu presennol. Nid oes angen cwrdd â'r trothwy i ddechrau achos troseddol ar gyfer cyflawni trosedd er mwyn gwneud gorchymyn - mae hyn yn caniatáu ymyrraeth gynnar gan yr heddlu mewn achosion o stelcio.

**Os yw'r achos eisoes wedi cwrdd â'r trothwy, nid yw Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio yn ddewis arall yn lle erlyn am droseddau stelcio o dan Ddeddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997** (a amlinellir yn Atodiad C - Troseddau Stelcio). **Gellir defnyddio Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio i ategu erlyniad am drosedd stelcio.**

2. Cyhoeddir y canllawiau hyn fel canllawiau statudol o dan adran 12 o Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 a ddaeth i rym ar 20 Ionawr 2020.

3. Dylid ystyried defnyddio Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio fel rhan o weithdrefnau diogelu oedolion a/neu blant ac amddiffyn y cyhoedd lleol.

**Cynulleidfa**

4. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer yr heddlu wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio. Fe'u cynlluniwyd i gynorthwyo swyddogion heddlu i wneud asesiadau priodol a chymesur wrth ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn neu gais i amrywio gorchymyn.

5. Efallai bydd y wybodaeth yn y canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i gynorthwyo gwaith asiantaethau cyfiawnder troseddol a chyrff statudol eraill, yn ogystal â sefydliadau anllywodraethol a gwirfoddol a all fod yn gysylltiedig â dioddefwyr neu eraill y mae ymddygiad stelcio yn effeithio arnynt.

6. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig.

**Nodau a diben**

7. Mae gan y canllawiau hyn dair prif swyddogaeth:
   - darparu arweiniad strategol i'r heddlu ar ddefnyddio Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio, a'r broses ymgeisio yn effeithiol, gan gynnwys pryd i ystyried gwneud cais am orchymyn a sut i reoli gwrthrych gorchymyn yn effeithiol;
   - darparu gwybodaeth lefel uchel ar beth yw stelcio a sut i'w adnabod, gan gynnwys y cymhellion y tu ôl i ymddygiad stelcio a chysylltiadau â mathau eraill o gam-drin (*Atodiad A*); a
   - cyfeirio'r heddlu at ffynonellau eraill o wybodaeth ar stelcio (*wedi'u hamlinellu yn Atodiad E - Canllawiau pellach ar stelcio*), yn benodol o ran ymchwilio i achosion o stelcio; asesu a rheoli'r risg a berir gan gyflawnwyr; a diogelu a chefnogi dioddefwyr.

## Adran 2 - Gwneud cais am orchymyn neu orchymyn dros dro

8. Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r darpariaethau penodol yn Neddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 mewn perthynas â cheisiadau am orchymyn neu orchymyn dros dro.

9. Crëwyd y Ddeddf hon i alluogi ymyrraeth gynnar cyn-euogfarn gan yr heddlu i fynd i'r afael ag ymddygiad stelcio cyn iddo ymwreiddio neu waethygu mewn difrifoldeb ac i amddiffyn dioddefwyr rhag niwed mwy difrifol. Fodd bynnag, nid oes cyfyngiad ar gam y broses cyfiawnder troseddol y gellir gwneud gorchymyn arni, ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gellid gwneud gorchymyn yn dilyn euogfarn neu ryddfarn. Mae ceisiadau yn annibynnol ac mae gan y Llys y pŵer i ystyried cais a gwneud Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio ar unrhyw adeg, ar yr amod ei fod yn fodlon bod y tri maen prawf a nodir yn adran 2(1) o'r Ddeddf yn cael eu bodloni.

10. Gorchymyn sifil y mae'r heddlu yn gallu gwneud cais amdano yw Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio.

**Nid oes angen unrhyw euogfarnau blaenorol am droseddau stelcio i wneud cais am orchymyn.**

**Pryd i wneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio**

11. Mae'r meini prawf ar gyfer gwneud cais am orchymyn wedi'u nodi yn adran 1(1) o'r Ddeddf. Dylai'r heddlu ystyried gwneud cais am orchymyn os yw'n ymddangos iddynt fod:
    - Yr ymatebydd wedi cyflawni gweithredoedd sy'n gysylltiedig â stelcio;
    - Yr ymatebydd yn peri risg o stelcio i berson; a
    - Yna achos rhesymol i gredu bod y gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol i ddiogelu'r person arall rhag y risg hwnnw. (Nid oes rhaid i'r person sydd i gael ei ddiogelu fod wedi bod yn ddioddefwr y gweithredoedd y cyfeirir atynt uchod.)

**Dim ond pan fodlonir y meini prawf tebyg yn adran 2(1) o'r Ddeddf y caiff llys ynadon wneud gorchymyn.**

12. Mae'r amgylchiadau lle gall yr heddlu wneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio fel a ganlyn:

- mae dioddefwr wedi adrodd am ymddygiad stelcio, neu mae wedi dod i sylw'r heddlu yn ystod ymchwiliad ar wahân neu drwy ddulliau eraill (megis atgyfeiriad trydydd parti trwy brosesau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)/Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) neu gan aelod arall o'r cyhoedd);
- ar unrhyw adeg yn ystod ymchwiliad, hyd at a chan gynnwys yr euogfarn (neu ryddfarn), neu le nad yw ymchwiliad wedi dechrau eto; a
- credir bod y dioddefwr mewn perygl o niwed gan yr ymatebydd a bod angen gorchymyn i ddiogelu'r dioddefwr rhag y risg hwnnw.

13. **Mae'n bwysig nodi y gall stelcio effeithio ar bobl o bob nodwedd, ac er bod dioddefwyr yn fenywod yn anghymesur, mae dioddefwyr yn dod o bob cefndir. Dylai swyddogion hefyd fod yn ymwybodol, yn ôl data Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr[1], bod pobl â salwch neu anabledd hirdymor yn anghymesur o debygol o fod yn ddioddefwyr stelcio.**

14. Dylai'r swyddog ymchwilio ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn ar ddechrau pob ymchwiliad stelcio, boed hynny mewn cyd-destun cam-drin domestig (megis stelcio gan gynbartner) neu'n achos o'r hyn a elwir yn 'stelcio gan ddieithryn'. Mae hyn yn caniatáu i gael cynlluniau amddiffyn ar waith hyd yn oed os yw'r achos yn arwain at ryddfarn.

15. Gall yr heddlu wneud cais am orchymyn yn erbyn plant a phobl ifanc o 10 oed hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed. Llysoedd ieuenctid fydd yn delio â'r achosion hyn.

16. Dylai'r heddlu ystyried gwneud cais am orchymyn nid yn unig i amddiffyn y dioddefwr ond hefyd, lle bo angen, unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr a allai hefyd fod mewn perygl o gael ei stelcio gan yr ymatebydd.

17. Gellir gwneud cais am Orchmynion Diogelu Rhag Stelcio hyd yn oed os nad yw'r erlyniad yn mynd yn ei flaen.

18. Bydd angen i'r heddlu gynnal asesiad o'r risg a berir gan yr ymatebydd er mwyn penderfynu a ddylid gwneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio. Dylai ymchwilwyr ymgynghori â dioddefwyr yn gynnar yn y broses hon gan ei bod yn bwysig ystyried eu barn am y risgiau iddyn nhw. Dylai'r

---

[1] Stelcio: darganfyddiadau Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr, y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2019 - https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/stalkingfindingsfromthecrimesurveyforenglandandwales (Tabl 6b)

heddlu sicrhau bod asesiad risg neu offeryn sgrinio stelcio arbenigol priodol yn cael ei ddefnyddio, mewn ymgynghoriad ag asiantaethau perthnasol eraill neu drwy asesydd risg annibynnol lle bo hynny'n briodol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw ddarlun manwl, lle bo hynny'n bosibl, sy'n llywio penderfyniadau trwy gydol y broses Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio.

19. Nid yw Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio yn gyfyngedig i achosion o'r hyn a elwir yn 'stelcio gan ddieithryn' a gellir eu defnyddio hefyd mewn cyddestun cam-drin domestig lle bo hynny'n briodol. Gallant fod yn arbennig o berthnasol mewn achosion o gam-drin economaidd sy'n digwydd yn aml neu'n parhau ar ôl i berthynas gyda phartner ddod i ben. Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth am y gorgyffwrdd gyda ffurfiau eraill o gam-drin.

20. Dylai'r heddlu ystyried rhesymoldeb wrth ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn, gan ystyried amgylchiadau'r mater a chefndir yr ymddygiad. Dylai'r heddlu sicrhau bod y dioddefwr yn canfod yr ymddygiad yn ddigroeso yn rhesymol, y dylai'r ymatebydd fod wedi gwybod hynny'n rhesymol ac y gellir yn rhesymol ystyried bod yr ymddygiad yn peri risg i'r dioddefwr.

**Sylwch efallai na fydd dioddefwyr yn gwbl ymwybodol y gall yr holl ymddygiad y maent wedi bod yn destun iddo fod yn stelcio.**

21. Gall y risg o stelcio a achosir gan yr ymatebydd fod mewn perthynas â niwed corfforol neu seicolegol i'r person arall a/neu ddifrod i'w eiddo. Gall risg ddeillio o weithredoedd y mae'r ymatebydd yn gwybod neu y dylent yn rhesymol wybod eu bod yn ddigroeso i'r person arall, **hyd yn oed os gall y gweithredoedd ymddangos ynddynt eu hunain neu'n unigol yn ddiniwed mewn amgylchiadau eraill.** Er enghraifft, gallai anfon anrhegion neu flodau nas dymunir i rywun ar y cyd ag ymddygiad arall fod yn ymddygiad stelcio. Am fwy o enghreifftiau o weithredoedd neu hepgoriadau a allai fod yn gyfystyr ag ymddygiad stelcio, gweler adran 2A o Ddeddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 (yn Atodiad C - Troseddau Stelcio) neu Atodiad A - Deall stelcio.

22. Gall yr ymddygiad sy'n sail i gais fod wedi digwydd:
   - **yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, neu dramor;**
   - **cyn neu ar ôl i adran 2(5) o Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 ddod i rym.**

23. Efallai y bydd y dioddefwr yn dal i allu gwneud cais am orchmynion amddiffynnol eraill tebyg, megis Gwaharddebau neu Orchmynion Peidio ag Ymyrryd mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos.

24. Fodd bynnag, gall yr heddlu ystyried gwneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio cyn neu yn ystod ymchwiliad am drosedd stelcio y gellir dwyn erlyniad yn nes ymlaen. Pwrpas gwneud cais am y Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio o dan yr amgylchiadau hynny yw amddiffyn y dioddefwr rhag unrhyw risg stelcio a nodwyd cyn neu yn ystod unrhyw ymchwiliad ac achos troseddol.

**Gorchmynion dros dro**

25. Mae Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro yn orchymyn dros dro sy'n gosod gwaharddiadau a/neu ofynion cadarnhaol fel y mae'r Llys yn ystyried sy'n briodol.

26. Pwrpas gorchymyn dros dro yw amddiffyn y dioddefwr yn ystod unrhyw gyfnod rhwng y cais am orchymyn llawn a'i benderfyniad. Mae torri unrhyw un o amodau gorchymyn dros dro yn drosedd sy'n cario'r un gosb uchaf â thorri gorchymyn llawn.

27. Bwriad gorchmynion dros dro yw darparu proses gyflymach i gael gorchymyn pan fydd risg uniongyrchol o niwed, er enghraifft mewn achosion lle mae ffactorau sy'n cynnwys syniadaeth hunanladdol neu ddynladdol, ond lle mae angen gwybodaeth neu ymchwiliad pellach i fodloni'r meini prawf i gael Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio llawn neu pan na all y llys ddarparu'r gorchymyn llawn mewn pryd.

28. Mae'n fater i'r llysoedd ddehongli a yw am wneud gorchymyn dros dro ai peidio. Os yw cais yn cael ei wneud a'i gefnogi'n iawn, gellir caniatáu gorchymyn dros dro. Gall y llys wneud gorchymyn dros dro os yw'n ystyried ei bod yn briodol i wneud hynny.

29. Disgwylir y bydd unrhyw orchymyn dros dro a roddir am gyfnod cyfyngedig o amser i alluogi cael/ymchwilio i'r wybodaeth ychwanegol hon ac y bydd cais am orchymyn llawn yn cael ei benderfynu unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

30. Mae'r broses ar gyfer gwneud cais am orchymyn dros dro'r un fath â'r broses ar gyfer gwneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio llawn. Efallai y bydd yn ofynnol i'r heddlu ddarparu datganiad ysgrifenedig i'r llys neu ddarparu tystiolaeth yn bersonol wrth wneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio.

31. Gall y llys, os yw o'r farn ei bod yn briodol i wneud hynny, wneud Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro—
    a. i wahardd yr ymatebydd rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn, neu
    b. er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r ymatebydd wneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn.

32. Dim ond am gyfnod penodol a bennir yn y gorchymyn y mae Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro mewn grym, a bydd yn colli ei rym ar ôl dod i benderfyniad ar brif gais y Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio 'llawn' a gorchymyn dros dro?**

33. Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn dros dro, gall y llys wneud un 'os yw'n ystyried ei bod yn **briodol** gwneud hynny' [ychwanegwyd pwyslais] yn unol ag adran 5(3) o Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019. Mae hwn yn **drothwy is** na'r hyn sy'n ofynnol i wneud gorchymyn 'llawn', lle gall y llys wneud un dim ond os yw'n 'fodlon' bod gorchymyn yn **'angenrheidiol** i amddiffyn person arall' [ychwanegwyd pwyslais] rhag stelcio yn unol ag adran 2(1) o Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019. Felly gallai gorchymyn dros dro gael ei wneud yn gyflymach pan asesir bod yna risg uniongyrchol, cyn cynnal archwiliad llawn o'r dystiolaeth i benderfynu ar y cais am y gorchymyn 'llawn'.

34. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd y llysoedd yn cymhwyso'r safon prawf sifil (y tu hwnt i amheuaeth resymol) i elfennau canfod ffeithiau cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio (SPO) 'llawn' (pa un a yw'r diffynnydd wedi cyflawni gweithredoedd sy'n gysylltiedig â stelcio, ac a yw'r diffynnydd yn peri risg sy'n gysylltiedig â stelcio i berson arall), ochr yn ochr ag elfennau canfod ffeithiau cais am SPO dros dro, sef ei drin fel arfer barn neu werthuso.

35. (Mae'n debygol y bydd y llysoedd hefyd yn cymhwyso'r safon sifil o brawf i elfen nad yw'n canfod ffeithiau y cais am SPO 'llawn' (oes angen gorchymyn i amddiffyn person arall) **a'r** cais am SPO dros dro (pa un a yw'n briodol i wneud gorchymyn dros dro), ond yn hytrach bydd yn cymryd y safbwynt eu bod yn cynrychioli ymarfer barn neu werthuso.)

**Sut i wneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio a gorchymyn dros dro**

36. Gall prif swyddog heddlu (fel y'i dirprwywyd) wneud cais am orchymyn neu orchymyn dros dro - gan gynnwys prif swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn - mewn perthynas â pherson (yr ymatebydd) sy'n preswylio yn ardal heddlu'r prif swyddog, neu y mae'r prif swyddog yn credu sydd yn yr ardal honno neu'n bwriadu dod iddi.

37. Nid oes angen i'r ymatebydd gael euogfarn flaenorol am drosedd stelcio i'r heddlu wneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio. Gall y llys wneud Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio os yw'n fodlon bod yr amodau yn adran 2(1) o'r Ddeddf yn cael eu bodloni. Gall y llys wneud gorchymyn dros dro os yw'n fodlon ei bod yn "briodol i wneud hynny", hyd nes y penderfynir ar y prif gais.

38. Pan yw'r ymatebydd a'r dioddefwr yn byw mewn gwahanol ardaloedd heddlu, naill ai ar adeg caniatáu'r Gorchymyn neu ar ôl i'r naill ochr neu'r llall symud tra bo'r Gorchymyn yn ei le, dylai heddlu lleol yr ymatebydd gysylltu â heddlu lleol y dioddefwr i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o amgylchiadau'r achos unigol a sicrhau bod y gwaharddiadau a'r gofynion mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau yn cael eu ceisio neu'n parhau i fod yn briodol. Mae cydgysylltu a rhannu gwybodaeth o'r fath rhwng lluoedd yn amodol ar fframweithiau presennol yr heddlu ar gyfer gwneud hynny.

39. **Mae hefyd yn bwysig, os rhoddir Gorchymyn, bod y llu a wnaeth y cais yn trosglwyddo gwybodaeth lawn (manylion y Gorchymyn gan gynnwys unrhyw asesiadau risg a gwblhawyd ac unrhyw gynlluniau rheoli risg) am y Gorchymyn ac amodau i'r llu y mae'r dioddefwr yn byw yn ei ardal (os yn wahanol). Mae hyn er mwyn sicrhau bod y dioddefwr wedi'i amddiffyn yn llawn a bod heddlu yn yr ardal honno'n ymwybodol o unrhyw doriadau ar y Gorchymyn a allai ddigwydd yn eu hardal ac yn gallu mynd i'r afael â hwy. Yn ddelfrydol, dylai'r lluoedd nodi pwynt cyswllt lleol i hwyluso proses drosglwyddo y cytunwyd**

**arni a rheoli achosion yn barhaus (yn amodol ar fframweithiau presennol yr heddlu ar gyfer gwneud hynny).**

40. Nodi y gallai dioddefwr brofi ymddygiad stelcio mewn mwy nag un ardal heddlu, er enghraifft os yw'n byw mewn un ardal heddlu, yn gweithio mewn ardal arall ac yn profi stelcio yn y ddau. Yn yr achosion hynny, lle mae'r ymatebydd yn byw mewn trydedd ardal heddlu, cynghorir llu lleol yr ymatebydd i gydgysylltu â phob llu perthnasol, a darparu manylion unrhyw Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio iddynt.

41. **Rhaid i gais am orchymyn gael ei awdurdodi gan swyddog nad yw'n is na safle uwch-arolygydd.**

**Dechrau Achos yn y Llys Ynadon**

42. Gwneir cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio 'llawn' trwy gŵyn gan yr heddlu - gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn - i lys ynadon. Mae hyn yn golygu y bydd y llys yn gweithredu yn ei rinwedd sifil ac felly mae'r rheolau tystiolaeth sifil yn berthnasol ac mae achlust yn dderbyniadwy. Mae'n debygol y bydd y llysoedd yn cymhwyso'r safon prawf sifil (cydbwysedd tebygolrwydd) i elfennau canfod ffeithiau cais am SPO (pa un a yw'r diffynnydd wedi cyflawni gweithredoedd sy'n gysylltiedig â stelcio, ac a yw'r diffynnydd yn peri risg sy'n gysylltiedig â stelcio i berson arall). Os a phan fydd y llys yn canfod bod yr unigolyn wedi cyflawni'r gweithredoedd ac yn peri risg, mae'n debygol y bydd y llysoedd hefyd yn cymhwyso'r safon sifil o brawf i drydedd elfen cais am SPO (a oes **angen** gorchymyn i amddiffyn person arall), ond yn hytrach ei drin fel ymarfer barn neu werthuso.

43. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y dyfarniad yn Nhŷ'r Arglwyddi yn achos R (McCann) v Llys y Goron ym Manceinion [2003] 1 AC 787. Roedd yr achos yn ymwneud â Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a oedd yn debyg i SPOs. Nid yw'r achos hwn yn tanseilio'r safbwynt bod y SPO yn orchymyn sifil ac felly mae'r hawliau gweithdrefnol o dan Erthygl 6 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop (ECHR) yn berthnasol. Mae gan bawb hawl i wrandawiad teg a chyhoeddus, o fewn amser rhesymol, gan dribiwnlys annibynnol a diduedd. Bydd asesu a yw'r camau diogelu hyn wedi'u bodloni yn cael ei benderfynu ar ffeithiau pob achos yng nghyd-destun cyfraith achos berthnasol.

44. Os yw'r ymatebydd o dan 18 oed, gwneir y gŵyn i lys ieuenctid. Mae’r darpariaethau cyffredinol sy’n llywodraethu ceisiadau am orchmynion sifil yn y llysoedd ynadon fel y nodir yn Rhan 2 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980. Er mwyn hwyluso'r broses, argymhellir bod yr heddlu'n ystyried rhybuddio'r llys cyn gwneud cais, i helpu i'w drefnu.

45. Gwneir cais am orchymyn dros dro trwy gŵyn hefyd. Gellir naill ai ddechrau’r cais hwn ar yr un pryd â'r prif gais neu lle mae'r prif gais wedi'i wneud ond heb ei benderfynu eto. Mae'n debygol na fydd y llysoedd yn cymhwyso’r safon prawf droseddol ar gyfer unrhyw elfennau canfod ffeithiau cais am SPO dros dro, ac felly’n ei drin fel ymarfer barn neu werthuso.

46. Gall llys, ac fel rheol bydd, yn cyhoeddi gwŷs i sicrhau presenoldeb yr ymatebydd yn y gwrandawiad. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'r Heddlu gyhoeddi rhybudd o wrandawiad ychwanegol i'r ymatebydd.

47. Pan ddechreuir y cais am y prif orchymyn a’r gorchymyn dros dro ar yr un pryd, dylai'r Heddlu ofyn i'r llys gyhoeddi gwŷs ar gyfer y prif gais a'r gorchymyn dros dro, er eu bod ar gyfer yr un dyddiad gwrandawiad. Rhaid i'r un llu heddlu wneud y cais am y prif orchymyn a'r gorchymyn dros dro.

48. Pan wneir cais am orchymyn dros dro yn y llys tra bo'r ymatebydd yn bresennol, nid oes angen i'r llys godi gŵys i ystyried y cais am y gorchymyn dros dro.

49. Mae cost ariannol i'r heddlu sy'n gysylltiedig â gwneud cais i'r llys am orchymyn. Dylai'r ffi gael ei thalu ar yr un pryd ag y gwneir y cais. Efallai bod gan heddluoedd drefniadau ar waith yn lleol ar gyfer talu ffioedd Llys.

50. Mae yna ffi ychwanegol os yw'r cais yn arwain at wrandawiad ac os bydd y cais yn cael ei herio. Mae’r ffioedd yn cael eu pennu gan y Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 (Diwygiedig)[2].

**Cyflwyno'r wŷs**

51. Bydd y llys yn cyflwyno'r wŷs i'r heddlu ac yna mae'r heddlu yn gyfrifol am gyflwyno'r wŷs i'r ymatebydd. Yn gyffredinol, cyflwynir gwŷs trwy ei phostio i'r ymatebydd i gyfeiriad lle credir yn rhesymol y bydd yn ei derbyn, ei adael

[2] Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 (Diwygiedig) - https://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/875/made?view=plain

mewn cyfeiriad o'r fath i'r ymatebydd neu ei drosglwyddo'n bersonol i'r ymatebydd. Mae Rheol 99, Rheolau Llysoedd Ynadon 1981 fel y'u diwygiwyd gan Reolau Llysoedd Ynadon (Diwygiad) 2019 yn egluro dulliau cyflwyno eraill a ganiateir.

**Y Gwrandawiad - Mynd ymlaen yn absenoldeb yr ymatebydd**

52. Os yw'r ymatebydd yn methu â mynychu'r gwrandawiad, gall y llys naill ai:

- wrando ar y cais am y Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio yn absenoldeb yr ymatebydd. Os yw'r Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio yn cael ei roi ni fydd angen i'r llys ystyried y gorchymyn dros dro;
- codi gwarant ar gyfer arestio'r ymatebydd ac ystyried gorchymyn dros dro os oes cais wedi'i wneud;
- gohirio'r prif gais ac ystyried gorchymyn dros dro os oes cais wedi'i wneud; neu
- gohirio'r prif gais, a gorchymyn dros dro os oes cais wedi'i wneud, i ddyddiad arall.

53. Dim ond os bodlonir y gofynion cyfreithiol yn adran 55 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 y caiff y llys godi gwarant neu glywed cais am y prif orchymyn neu unrhyw orchymyn dros dro yn absenoldeb yr ymatebydd. Mae angen i'r llys fod yn fodlon naill ai bod yr ymatebydd yn bresennol mewn gwrandawiad cynharach neu fod yr ymatebydd wedi cael y wŷs trwy un o'r dulliau penodedig o fewn yr hyn y mae'r llys yn penderfynu sy'n amser rhesymol cyn y gwrandawiad. Cyn y gall y llys wneud gorchymyn dros dro yn absenoldeb yr ymatebydd, rhaid bod yr ymatebydd wedi cael ei wysio i ateb y gŵyn y mae'r gorchymyn dros dro yn berthnasol iddo, ochr yn ochr â'r wŷs ar gyfer y prif gais.

**Gofynion Tystiolaeth**

54. Gall y llys ystyried tystiolaeth achlust yn ychwanegol at dystiolaeth fyw gan dystion i benderfynu ar y cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio neu orchymyn dros dro. Felly mae angen rhybuddio tystion yr Heddlu, os oes angen, dim ond ar ôl i'r ymatebydd gadarnhau yn y gwrandawiad cyntaf bod sail dystiolaeth y gorchymyn yn cael ei herio a bod y llys wedi gohirio ar gyfer gwrandawiad sy'n cael ei herio.

55. Pan fo'r Heddlu'n dymuno dibynnu ar dystiolaeth achlust, rhaid cyflwyno rhybudd o'r dystiolaeth i'r ymatebydd o leiaf 21 diwrnod cyn y gwrandawiad (Rheol 3 Llysoedd Ynadon (Tystiolaeth Achlust mewn Achosion Sifil) ac adran 2 o Ddeddf Tystiolaeth Sifil 1995). Gall clerc y llys neu glerc yr

ynadon arfer disgresiwn i amrywio'r terfyn amser ar gais neu ei fenter ei hun. Nid yw methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn yn atal y dystiolaeth rhag bod yn dderbyniol ond mae'n ffactor y gall y llys ei ystyried wrth benderfynu sut i symud ymlaen ac ar y mater o gostau.

56. Er bod y Ddeddf yn caniatáu i'r Heddlu wneud cais am Orchmynion Diogelu Rhag Stelcio i leihau'r effaith bosibl ar ddioddefwyr sy'n agored i niwed, gall fod amgylchiadau lle mae'n briodol i'r dioddefwr neu dyst arall fynychu'r gwrandawiad cais i ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r cais. Er nad oes deddfwriaeth yn sail i'r broses lle gall y Llys ganiatáu mesurau arbennig, mae'n gallu dibynnu ar bwerau cyfraith gyffredin i wneud hynny lle bo hynny'n briodol (R v X (1989) 91 Cr App Rep 36, [1990] Crim LR 515). Wrth gwblhau'r cais am SPO, os bydd yr Heddlu'n penderfynu bod angen presenoldeb tystion a bod angen mesurau arbennig, dylent gwblhau'r adran 'Mesurau Arbennig' perthnasol o'r cais am SPO sy'n cadarnhau enw'r tyst, y rheswm y ceisir mesurau arbennig, a'r math o fesur a geisir. Bydd y Llys yn ystyried y cais ar ôl derbyn y cais a chyn rhestru'r gwrandawiad. Yna gall yr Heddlu roi gwybod i'r tyst a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus neu beidio cyn y gwrandawiad.

**Telerau i'w cynnwys yn y gorchymyn**

57. O fewn cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio, neu orchymyn dros dro, gall yr heddlu ofyn am **waharddiadau a/neu ofynion** o fewn gorchymyn i amddiffyn y dioddefwr rhag y risg o stelcio. Fodd bynnag, y llys ynadon sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol ynghylch pa amodau i'w cynnwys o fewn Gorchymyn.

58. Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio neu Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro yn cyflawni trosedd.

59. Bydd y Llysoedd, yn unol â'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol fel corff cyhoeddus, yn gorfod dehongli Deddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 cyn belled ag y bo modd mewn ffordd sy'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), gan gynnwys Erthygl 2 hawl i fywyd i'r dioddefwr ac Erthygl 8 hawl i breifatrwydd i'r ymatebydd. Byddai'n rhaid cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth â hawliau bywyd a phreifatrwydd person am un o'r rhesymau a nodir yn Erthygl 2 ac Erthygl 8 a byddai'n rhaid iddo fod yn gymesur.

60. Arfer gorau yw i'r heddlu ymgysylltu â'r dioddefwr i gael ei farn ar yr amodau mwyaf priodol i ofyn amdanynt mewn cais am orchymyn. Rhaid i'r

cais ddangos yn effeithiol yr angen am y gorchymyn, yr amodau y gofynnir amdanynt a'r risg o niwed (a all fod yn seicolegol a/neu'n gorfforol), yn ogystal â bod yr amodau a awgrymir yn gymesur â'r niwed a berir yn unol â'r meini prawf yn yr adran 1(1) o'r Ddeddf.

61. Mae gorchymyn mewn grym am gyfnod a nodir yn y gorchymyn, neu nes bydd gorchymyn pellach yn cael ei wneud. Pan nodir cyfnod penodol yn y gorchymyn, rhaid iddo fod am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf. Gellir nodi gwahanol gyfnodau mewn perthynas â gwaharddiadau neu ofynion gwahanol yn nhelerau'r gorchymyn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

62. Mae gan waharddiad neu ofyniad rym ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig oni bai ei fod yn cael ei gyfyngu yn glir i ardal benodol.

63. Gallai amodau gorchymyn gynnwys **gwahardd** yr ymatebydd rhag:
    - mynd i mewn i leoliadau penodedig neu ardaloedd diffiniedig lle mae'r dioddefwr yn preswylio neu'n ymweld â nhw'n aml;
    - cysylltu â'r dioddefwr mewn unrhyw fodd, gan gynnwys dros y ffôn, trwy'r post, e-bost, negeseuon testun SMS neu'r cyfryngau cymdeithasol;
    - cysylltu neu ryngweithio gyda'r dioddefwr trwy drydydd partïon, er enghraifft ffrindiau neu deulu;
    - cyfeirio at y dioddefwr ar y cyfryngau cymdeithasol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
    - gwneud ceisiadau blinderus i'r llys sifil (gan gynnwys y Llys Teulu) sy'n cyfeirio at y dioddefwr;
    - recordio delweddau o'r dioddefwr
    - defnyddio unrhyw ddyfais sy'n gallu cyrchu'r rhyngrwyd oni bai bod ganddo'r gallu i gadw ac arddangos hanes y defnydd o'r rhyngrwyd;
    - mynd at y dioddefwr yn gorfforol (o gwbl, i mewn i ardal benodedig neu fel yr amlinellir ar fap); a/neu
    - cymryd rhan mewn unrhyw fath o wyliadwriaeth o'r dioddefwr trwy unrhyw fodd.

64. Gallai amodau'r gorchymyn gynnwys **gofynion** cadarnhaol i:
    - fynd i asesiad o addasrwydd ar gyfer triniaeth;
    - mynychu rhaglen ymyrraeth briodol ar gyfer cyflawnwyr;
    - mynychu asesiad iechyd meddwl;
    - mynychu rhaglen cyffuriau ac alcohol;
    - ildio dyfeisiau;

- rhoi mynediad i'r heddlu i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, ffonau symudol, cyfrifiaduron, tabledi a chyfrineiriau/codau; a/neu
- cofrestru mewn swyddfa heddlu.

**Dylid ystyried pob cais yn ôl ei amgylchiadau ei hun wrth benderfynu ar yr amodau mwyaf priodol ac nid yw'r rhestrau uchod yn gynhwysfawr.**

65. Wrth ddrafftio cais SPO, cynghorir yr heddlu i sicrhau bod unrhyw amodau a geisir mewn ceisiadau yn glir, yn benodol ac yn gymesur â'r amgylchiadau er mwyn cynorthwyo'r llys sy'n ystyried y cais i osod yr amodau mwyaf priodol.

66. **Ni ddylai'r** heddlu ofyn i fonitro electronig gael ei orfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiad ag amodau Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio, gan nad yw'r seilwaith ar waith i hynny ddigwydd.

67. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn cael ei gynnwys os torrir gorchymyn a'i fod yn cael ei erlyn. Felly, gallai hefyd fod yn synhwyrol ceisio cyngor gan y CPS ar eiriad amodau anarferol neu gymhleth er mwyn sicrhau y gellir profi unrhyw doriadau i'r safon prawf droseddol.

68. Dylai'r heddlu ystyried ceisio cyngor arbenigol ynghylch y telerau y maent yn gofyn iddynt gael eu cynnwys yn y gorchymyn. Efallai y byddant hefyd yn dymuno ymchwilio i argaeledd gwasanaethau a rhaglenni lleol perthnasol. Er enghraifft, efallai y byddant yn dymuno ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, eu Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Grŵp Comisiynu Clinigol lleol, ymarferwyr gofal iechyd arbenigol neu sefydliadau anllywodraethol.

69. **Dylai'r heddlu sy'n gwneud cais SPO sicrhau bod unrhyw ofynion cadarnhaol sydd wedi'u cynnwys mewn cais, megis rhaglenni ymyrraeth cyflawnwyr, yn briodol i ymddygiad stelcio'r ymatebydd a'r amgylchiadau a nodwyd.**

70. Dylai'r heddlu hefyd edrych ar gofnodion heddlu perthnasol i sefydlu a yw'r ymatebydd eisoes yn destun gorchymyn neu waharddeb arall. Os felly, rhaid iddynt sicrhau nad yw'r amodau arfaethedig yn y cais yn gwrthddweud telerau unrhyw orchymyn sydd eisoes yn bodoli.

71. Dylai'r heddlu sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol, nad yw unrhyw waharddiadau a gofynion y gofynnir amdanynt mewn cais yn gwrthdaro â chredoau crefyddol yr ymatebydd neu'r amseroedd pan fyddai fel rheol yn

mynd i’r gwaith neu sefydliad addysg fel y nodir yn adran 2(3) o Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019. Dylai'r heddlu ystyried a yw'r ymatebydd yn gweithio gyda'r dioddefwr neu'n mynd i’r un sefydliad crefyddol.

72. Rhaid i Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio a Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro nodi—
    - y dyddiad y gwneir y gorchymyn;
    - y cyfnod y bydd mewn grym. Gellir nodi cyfnod penodol ar gyfer Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio ond rhaid nodi cyfnod penodol ar gyfer gorchymyn dros dro. Bydd gorchymyn dros dro yn dod i ben ar ôl penderfynu ar y prif gais;
    - pob gwaharddiad neu ofyniad sy'n berthnasol i'r gwrthrych;
    - a yw unrhyw waharddiad neu ofyniad wedi'i gyfyngu'n benodol i ardal benodol ac, os ydyw, pa ardal;
    - a yw unrhyw waharddiad neu ofyniad yn ddarostyngedig i gyfnod penodol o amser sy'n wahanol i'r cyfnod y mae'r gorchymyn mewn grym ac, os ydyw, beth yw'r cyfnod hwnnw.

**Diogelu plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed**

73. Gellir amddiffyn pobl o dan 18 oed trwy Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio.

74. Mae gan yr heddlu ddyletswydd i ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn neu berson ifanc wrth arfer eu swyddogaethau; ym mhob ymchwiliad dylid dilyn yr egwyddor bod lles y plentyn o'r pwys mwyaf.

75. Gweler Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Plant 2018[3] i gael arweiniad statudol ar ddiogelu plant.

**Gwneud cais am orchymyn yn erbyn plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed**

76. Gall unigolion o dan 18 oed fod yn ymatebydd i orchymyn.

77. Bydd plant a phobl ifanc rhwng 10 oed a 18 oed, sy'n ymatebwyr mewn gorchymyn, yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn ag oedolion, ond bydd y llysoedd ieuenctid yn delio â'u ceisiadau yn yr un modd. Mae Rhan 3 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn berthnasol i blant a phobl ifanc mewn achosion diannod o'r fath mewn llysoedd ieuenctid a llysoedd ynadon.

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/779401/Working_Together_to_Safeguard-Children.pdf

78. O dan adran 34A o Ddeddf 1933, rhaid i'r llys, mewn perthynas â phlentyn dan 16 oed (neu fel arall mewn unrhyw achos arall) fynnu bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol (a all gynnwys adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol), ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig.

79. Dylid gwneud pob ymdrech cyn gwrandawiad i sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol, fel nad oes angen i'r llys fynnu eu bod yn bresennol.

80. Wrth wneud cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio, dylai'r egwyddorion canlynol fod yn berthnasol os yw'r ymatebydd yn berson ifanc:

- Bod yna ymgynghori cynnar â'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid (YOS) yn y broses o wneud cais lle bo hynny'n berthnasol. Dylai'r cais gael ei ategu gan gofnod o'r cyswllt â'r YOS, yn nodi y gofynnwyd am eu barn am y gorchymyn.

- Bod natur a maint unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen yn seiliedig ar asesiad strwythuredig sy'n ystyried anghenion y person ifanc a'r risg sydd ar ddod, er enghraifft niwed seicogymdeithasol.

- Bod lles y plentyn neu'r person ifanc yn hollbwysig, yn unol â gweithdrefnau diogelu lleol.

- Bod gofynion yr holl orchmynion a dedfrydau eraill a allai fodoli eisoes yn cael eu hystyried i sicrhau nad yw unrhyw ofynion a wneir gan y gorchmynion hyn yn cyfyngu ar allu person ifanc i gwblhau gorchmynion neu ddedfrydau cyfredol eraill, a bod baich cyfun y gofynion yn cael ei ystyried i sicrhau bod gan y person ifanc y gallu i gydymffurfio.

81. Mae adran 11 o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu sicrhau eu bod yn hyrwyddo lles plant ac yn eu diogelu wrth gyflawni eu dyletswyddau, a dylai'r egwyddor 'dim gorchymyn' (y dylid ystyried dewisiadau amgen i orchymyn yn gyntaf) fod yn berthnasol ym mhob achos.

## Adran 3 –Cyflwyno Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio

82. Rhaid i'r swyddog dynodedig ar gyfer y llys gyflwyno copi o’r Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio neu’r Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i orchymyn o'r fath gael ei wneud. Rhaid i’r gorchymyn gael ei gyflwyno gan un o’r dulliau a nodir yn Rheol 115 o Reolau Llysoedd Ynadon 1981 fel y’u diwygiwyd gan Reolau Llysoedd Ynadon (Diwygiad) 2019.

83. Os yw ymatebydd yn bresennol yn y gwrandawiad cais, dylid darparu copi o'r gorchymyn iddo yn y llys, lle bo hynny'n ymarferol. Pan fo'r ymatebydd yn blentyn neu'n berson ifanc, dylid rhoi copi i'w riant neu warcheidwad hefyd os yw'n bresennol.

84. Os na fydd yr ymatebydd yn mynychu'r gwrandawiad rhaid cyflwyno'r gorchymyn trwy un o'r dulliau penodedig eraill.

85. Dylai'r gorchymyn gael ei gyflwyno ochr yn ochr â rhybudd ysgrifenedig yn hysbysu'r ymatebydd o’r: • Broses apelio
   - Y gofynion hysbysu
   - Bod torri unrhyw un o'r gwaharddiadau neu'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y gorchymyn heb esgus rhesymol, a/neu fethiant i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu heb esgus rhesymol, a/neu ddarparu manylion enw a chyfeiriad ffug yn fwriadol, yn drosedd.

## Adran 4 – Rheoli gwrthrych gorchymyn neu orchymyn dros dro

**Cofrestru gorchymyn**

86. Unwaith y bydd Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio wedi'i wneud, bydd angen ei gofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) gan gynnwys y gorchymyn ar dudalen Gwybodaeth Weithredol cofnod PNC. Bydd hyn yn cynnwys y dyddiad y cyhoeddwyd y gorchymyn a’r dyddiad dod i ben, perchnogion heddlu unigol a rhifau cyfeirnod. Gellir ychwanegu unrhyw amodau a osodir fel rhan o'r gorchymyn hefyd at y cofnod PNC. Bydd hyn yn galluogi holl ddefnyddwyr PNC sydd angen gweld y cofnod cysylltiedig i weld y wybodaeth mewn perthynas â'r gorchymyn sy'n cael ei gyhoeddi a'r amodau hynny sydd ynghlwm.

87. Trwy gydol y broses o wneud cais am SPO ac yn ystod y cyfnod y mae SPO yn ei le dylai'r Heddlu ystyried a yw ymatebydd hefyd yn bodloni'r

meini prawf ar gyfer bod yn Berson Peryglus o Bosibl ac felly dylid ei gynnwys ar y Gronfa Ddata Pobl Beryglus (ViSOR)[4].

88. Mae yna ffactorau risg ychwanegol y dylid eu hystyried wrth reoli gwrthrych gorchymyn, er enghraifft, mynediad yr ymatebydd at ddrylliau cyfreithiol, gallu gyda drylliau/arfau, anawsterau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ati. Dylai ymchwilwyr gynnal unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol i nodi unrhyw ffactorau risg ychwanegol a dylent gynnwys cynllun o gamau i liniaru'r risgiau.

89. Cyfeiriwch at ganllaw'r Coleg Plismona ar reoli gwybodaeth i gael mwy o wybodaeth.

**Gofynion hysbysu**

90. Rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio/ Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro hysbysu'r heddlu o'i enw(au) a'i gyfeiriad cartref, cyn pen cyfnod o 3 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynir y gorchymyn.

91. Os bydd yr enw a ddefnyddir gan y person neu ei gyfeiriad yn newid yn ystod hyd y gorchymyn, rhaid iddo hysbysu'r heddlu o fewn cyfnod o 3 diwrnod ar ôl y newid hwnnw.

92. Nid yw'r gofynion hysbysu yn adran 9 o Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 yn berthnasol i berson sydd eisoes yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu o dan Ran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, er pe bai'r olaf yn dod i ben cyn i'r Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio ddod i ben, byddai adran 9 wedyn yn berthnasol, gyda'r dyddiad cau ar gyfer hysbysu 3 diwrnod ar ôl iddynt roi'r gorau i fod yn ddarostyngedig i Ddeddf 2003.

93. Mae person y mae ei gyfeiriad cartref yng Nghymru neu Lloegr yn rhoi hysbysiad trwy:

- fynd i orsaf heddlu yn ei ardal heddlu leol, a
- rhoi hysbysiad ar lafar i heddwas, neu i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi at y diben gan y swyddog sy'n gyfrifol am yr orsaf.

94. Mae'r Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio yn nodi bod "cyfeiriad cartref", yng nghyswllt unigolyn, yn golygu:

[4] https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-publicprotection/managing-sexual-offenders-and-violent-offenders/potentially-dangerous-persons/

- cyfeiriad unig neu brif breswylfa’r unigolyn yn y Deyrnas Unedig, neu
- os nad oes gan yr unigolyn breswylfa o’r fath, y cyfeiriad neu’r lleoliad yn y Deyrnas Unedig lle gellir dod o hyd i’r unigolyn yn gyson, os oes mwy nag un lleoliad o'r fath, y lleoedd hynny y bydd y person yn eu dewis.

95. Mae person nad oes ganddo gyfeiriad cartref yng Nghymru na Lloegr yn rhoi hysbysiad trwy—

- fynd i orsaf heddlu yn yr ardal heddlu leol lle mae'r llys ynadon a wnaeth Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio neu Orchymyn Diogelu Stelcio dros dro diwethaf mewn perthynas â'r person wedi'i leoli, a
- rhoi hysbysiad ar lafar i heddwas, neu i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi at y diben gan y swyddog sy'n gyfrifol am yr orsaf.

96. Rhaid cydnabod unrhyw hysbysiad a ddarperir i'r heddlu yn ysgrifenedig a'i gofnodi, ac ar unrhyw ffurf a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

97. I wirio hunaniaeth y person sy'n rhoi'r hysbysiad, gall yr heddlu ofyn am dynnu olion bysedd yr unigolyn a/neu dynnu ei lun. Rhaid i’r person sy’n rhoi’r hysbysiad adael i’r swyddog wneud hynny.

98. Mae'r person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn yn cyflawni trosedd os yw naill ai'n methu (heb unrhyw esgus rhesymol) i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu hyn neu ddarparu gwybodaeth yn unol â'r gofynion hynny y maent yn gwybod eu bod yn ffug. Mae hon yn drosedd y naill ffordd neu'r llall y gellir ei chosbi ar euogfarn ddiannod gyda charchar am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis (neu 6 mis am droseddau a gyflawnwyd cyn i adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym) neu ddirwy neu'r ddau, neu ymlaen euogfarn ar dditiad, gyda charchar am gyfnod nad yw'n hwy na 5 mlynedd neu ddirwy neu'r ddau. Ond ni all yr unigolyn gael ei erlyn fwy nag unwaith am yr un methiant i hysbysu.

99. Mae person yn cyflawni trosedd ar y diwrnod y bydd y person yn methu gyntaf heb esgus rhesymol i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu o dan adran 9 o Ddeddf Diogelu Rhag Stelcio 2019. Enghraifft o esgus rhesymol fyddai os yw'r ymatebydd yn y carchar, math arall o ddalfa neu ysbyty. Pan fydd y PNC yn dangos bod yr ymatebydd yn y ddalfa trwy gydol y cyfnod hysbysu ac felly'n methu â mynd i orsaf heddlu, ni fydd yr ymatebydd yn cael ei arestio am dorri'r gofynion hysbysu. Pan fydd unigolyn sy'n destun Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio tra yn y carchar yn cael ei ryddhau o'r carchar, dylai'r Gwasanaeth Carchardai hysbysu'r heddlu o'r dyddiad

rhyddhau a ragwelir fel y gellir rheoli monitro'r gofynion hysbysu ar gyfer yr ymatebydd yn briodol.

100. Gellir dechrau achos am y drosedd hon mewn unrhyw lys ag awdurdodaeth yn unrhyw le lle mae'r person a gyhuddir o'r drosedd yn preswylio neu'n cael ei ddarganfod.

**Torri**

101. Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio neu Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro yn cyflawni trosedd.

102. Dylai'r heddlu weithredu'n gyflym pan fydd toriad wedi digwydd ac mae angen iddynt ymchwilio i'r drosedd yn llawn, oherwydd efallai na fydd y dioddefwr yn ymwybodol o lawn faint y toriad a/neu'r stelcio. Dylent hefyd ystyried a oes unrhyw droseddau stelcio pellach wedi digwydd.

103. Dylid arestio’r unigolyn ar y cyfle cyntaf. Mae'n bwysig bod yn rhagweithiol, oherwydd gall unrhyw oedi (a) arwain at golli hyder y dioddefwr yn effeithiolrwydd y gorchymyn; a (b) trechu diben y gorchymyn i atal y stelciwr rhag achosi niwed pellach i'r dioddefwr.

104. Gall oedi wrth arestio ymatebwyr sy'n torri Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio ddangos i'r ymatebydd y bydd yr heddlu yn caniatáu iddynt barhau i dorri'r gorchymyn a stelcio eu dioddefwr heb i'r heddlu weithredu. Gallai hyn gynyddu'r risg i'r dioddefwr, yn enwedig gan y gallai'r stelciwr ystyried bod y Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio ei hun yn her i'w reolaeth dros y dioddefwr.

105. Felly gallai cais am Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio ei hun hefyd fod yn sbardun i'r stelciwr ddwysáu ei weithredoedd. Mae'n hanfodol bod yr heddlu'n deall y risgiau hyn ac yn cymryd camau brys mewn achosion lle mae gorchmynion yn cael eu torri. Ni ddylai'r cyfrifoldeb fod ar y dioddefwr i ofyn i'r heddlu arestio'r ymatebydd pan fydd Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio yn cael ei dorri; dylai arestio ar frys fod yr ymateb safonol i dorri Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio.

106. Bydd torri gorchymyn yn drosedd y gellir ei chosbi'r naill ffordd neu'r llall ar euogfarn ddiannod gyda charchar am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis (neu 6 mis am droseddau a gyflawnwyd cyn i adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym) neu a dirwy neu'r ddau, neu ar

dditiad, gyda charchar am gyfnod nad yw'n hwy na 5 mlynedd neu ddirwy neu'r ddau.

107. Mewn achos o dorri gorchymyn, mae copi o'r Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio gwreiddiol neu'r Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro, wedi'i ardystio gan swyddog dynodedig y llys y cafodd ei wneud ynddo, yn dderbyniadwy fel tystiolaeth ei fod wedi'i wneud. Bydd y pwysau sydd ynghlwm wrtho'r un fath â phe bai'n cael ei gyflwyno ar lafar yn yr achos o dorri’r gorchymyn.

108. Byddai un digwyddiad yn torri'r gorchymyn. Nid oes angen patrwm o ymddygiad i dorri Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio. Gellir defnyddio torri'r gorchymyn fel tystiolaeth cymeriad drwg mewn achos llys dilynol am y drosedd sylwedd wreiddiol.

109. Dylid paratoi ffeil achos mewn modd amserol.

110. Bydd erlyniadau am dorri gorchmynion yn cael eu cynnal gan yr CPS. Bydd achosion yn cael eu hadolygu yn y ffordd arferol yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, a bydd angen casglu digon o dystiolaeth cyn dechrau achos am dorri gorchymyn.

111. Gellir profi achosion naill ai’n ddiannod mewn llys ynadon neu ar dditiad yn Llys y Goron. Fel rheol, bydd unrhyw achosion yn erbyn plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn y llys ieuenctid.

112. Y safon prawf ar gyfer torri unrhyw orchymyn fydd y safon droseddol h.y. y tu hwnt i amheuaeth resymol’.

113. Mae Deddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 yn ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig ac nid yw troseddau o dorri gorchymyn o dan adran 8, neu fethu â chydymffurfio â gofynion hysbysu o dan adran 11, yn cael effaith alltiriogaethol. Er mwyn i ymddygiad fod yn drosedd yng Nghymru a Lloegr rhaid i'r troseddu gynnwys cysylltiad sylweddol â'r awdurdodaeth. Gallai enghraifft gynnwys pan fydd ymatebydd yn ymgymryd ag ymddygiad stelcio yn yr Alban yn torri Gorchymyn lle mae dioddefwr wedi'i leoli yng Nghymru neu Loegr. Os bydd angen cymorth pellach ar yr heddlu ynglŷn â'r troseddau hynny, efallai y byddant yn dymuno gofyn am gyngor mewnol neu siarad â'r CPS.

## Adran 5 – Amrywio, adnewyddu neu ryddhau gorchymyn neu orchymyn dros dro

114. Gall yr heddlu neu'r ymatebydd wneud cais i lys ynadon am orchymyn yn amrywio, adnewyddu neu ryddhau Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio neu Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro. Gwneir y cais trwy gŵyn i lys ynadon.

115. Disgwylir y bydd yr heddlu'n ymgysylltu â'r dioddefwr wrth wneud cais i'r gorchymyn gael ei amrywio, ei adnewyddu neu ei ryddhau.

116. Rhaid i'r llys glywed gan yr ymatebydd ac unrhyw brif swyddog heddlu sy'n dymuno cael ei glywed cyn gwneud penderfyniad y maen nhw'n ei ystyried yn briodol ar gais i amrywio, adnewyddu neu ryddhau gorchymyn.

117. Ni all y llys osod gwaharddiadau na gofynion ychwanegol ar orchymyn oni bai bod angen amddiffyn person sydd mewn perygl. Ni all y llys ychwaith ryddhau gorchymyn cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd heb gydsyniad yr ymatebydd a phrif swyddog yr heddlu a wnaeth y cais am y gorchymyn neu, os yw'n wahanol, prif swyddog yr heddlu yn ardal yr heddlu lle mae'r ymatebydd yn preswylio.

118. Dylid rhoi neu anfon copïau o'r gorchymyn sy'n gwrthod y cais, y gorchymyn amrywio, y gorchymyn adnewyddu neu'r gorchymyn rhyddhau, trwy'r post dosbarth cyntaf at yr ymatebydd. Os yw'r gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymatebydd gydymffurfio â'r gofynion hysbysu, dylid anfon copïau at bawb a gafodd rybudd o rwymedigaeth yr ymatebydd i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu.

## Adran 6 – Apeliadau

119. Mae apêl yn erbyn Gorchymyn yn cael ei wneud yn Llys y Goron.

120. Gall yr ymatebydd apelio i Lys y Goron yn erbyn -
   - gwneud Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro neu Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio parhaol;
   - gwneud gorchymyn i amrywio, adnewyddu neu ryddhau gorchymyn, yn dilyn cais gan yr heddlu; neu
   - y penderfyniad i wrthod cais yr ymatebydd i amrywio neu ryddhau gorchymyn.

121. Gall prif swyddog yr heddlu a wnaeth gais am y Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio, gorchymyn dros dro neu orchymyn i amrywio, adnewyddu neu ryddhau apelio i Lys y Goron yn erbyn -

- y penderfyniad i wrthod gwneud Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro neu Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio parhaol;
- y penderfyniad i wrthod cais yr heddlu i amrywio, adnewyddu neu ryddhau gorchymyn;
- gwneud gorchymyn i amrywio, adnewyddu, neu ryddhau gorchymyn, yn dilyn cais gan yr ymatebydd.

122. Wrth wrando ar apêl, caiff Llys y Goron wneud unrhyw orchmynion pellach a fydd ar waith wrth iddo benderfynu ar yr apêl, gan gynnwys gorchmynion cysylltiedig neu ganlyniadol.

123. Bydd unrhyw orchymyn a wneir gan Lys y Goron ar apêl yn cael ei drin at ddibenion unrhyw gais diweddarach am amrywio neu ryddhau fel pe bai'n orchymyn llys ynadon gwreiddiol, oni bai ei fod yn orchymyn sy'n cyfarwyddo bod y cais yn cael ei ail-glywed gan y llys ynadon.

## Adran 7 – Cymorth Cyfreithiol

124. Efallai y bydd cymorth cyfreithiol ar gael i wrthrych Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio neu Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio dros dro ar gyfer gwneud, amrywio, rhyddhau, adnewyddu ac apelio yn erbyn y gorchymyn, yn ogystal ag mewn perthynas ag achos am dorri gorchymyn neu fethu â chydymffurfio â gofynion hysbysu. Dylai darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol gyflwyno cais am orchymyn cynrychiolaeth yn y ffordd arferol. Bydd y cais yn ddarostyngedig i'r prawf modd a'r prawf 'Budd Cyfiawnder' safonol.  Pan fydd cais yn cael ei wrthod, bydd yr ymgeisydd yn cael rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i wrthod ynghyd â manylion am y prosesau apelio ac adolygu perthnasol. Mae manylion pellach am y broses o wneud cais am gymorth cyfreithiol ar gael o: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-legal-aid.

## Atodiad A - Deall Stelcio

### Beth yw stelcio?

1. Nid oes yna ddiffiniad cyfreithiol penodol o stelcio. Fodd bynnag, mae'r heddlu a'r CPS wedi mabwysiadu'r disgrifiad canlynol[5]: **“patrwm o ymddygiad digroeso ac obsesiynol sy'n aflonyddol. Gall gynnwys aflonyddu sy'n gyfystyr â stelcio neu stelcio sy'n achosi ofn o drais neu ofn neu ofid difrifol i’r dioddefwr.”**

2. Nid oes y fath beth â chyflawnwr stelcio ‘nodweddiadol’ neu ddioddefwr stelcio ‘nodweddiadol’. Mae'r drosedd hon yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched; fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall dynion a bechgyn fod yn ddioddefwyr hefyd. Mae stelcio yn effeithio ar bobl o bob oed, ac mae dioddefwyr yn dod o ystod eang o gefndiroedd - nid yw stelcio wedi'i gyfyngu i ffigurau cyhoeddus ac enwogion.

3. Bydd cyflawnwyr yn amrywio yn y cymhellion sy'n gyrru eu hymddygiad, y mathau o ymddygiad y maent yn ymgymryd â nhw, a'r hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni wrth fynd ar drywydd y dioddefwr. Gall y berthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr, yn ogystal â'r cyd-destun y mae'r ymddygiad stelcio yn digwydd ynddo, amrywio'n sylweddol hefyd.

4. Gall ymddygiad y cyflawnwr ymddangos yn ‘ddiniwed’ a gallant ynddynt eu hunain ymddangos yn gyfreithlon, yn enwedig os cânt eu hystyried ar wahân yn hytrach nag fel rhan o batrwm o ymddygiad.

   Fodd bynnag, gall yr ymddygiad fod yn gyfystyr â stelcio yn dibynnu ar:
   - cyd-destun yr ymddygiad;
   - y cymhellion sy’n gyrru’r ymddygiad; a’r
   - effaith ar y dioddefwr.

### Enghreifftiau o ymddygiad stelcio

5. Mae Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 (gweler Atodiad B) yn cynnwys y **rhestr anghynhwysfawr ganlynol o enghreifftiau** o ‘weithredoedd neu hepgoriadau sy’n gysylltiedig â stelcio’:
   a. dilyn person,

[5] Mae hwn yn seiliedig ar ddisgrifiad a ddatblygwyd gan Paladin, y Gwasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol, i gynyddu dealltwriaeth o stelcio.

    b. cysylltu, neu geisio cysylltu, a pherson trwy unrhyw ddull,
    c. cyhoeddi unrhyw ddatganiad neu ddeunydd arall-
        i. sy'n ymwneud â pherson neu sy'n honni ei fod yn ymwneud â pherson
        ii. neu'n honni ei fod yn dod oddi wrth berson,
    d. monitro'r defnydd gan berson o'r rhyngrwyd, e-bost neu unrhyw ddull arall o gyfathrebu electronig
    e. loetran mewn unrhyw le (boed yn gyhoeddus neu'n breifat),
    f. ymyrryd ag unrhyw eiddo sydd ym meddiant person
    g. gwylio neu ysbïo ar berson

6. Mae **enghreifftiau** eraill o ymddygiad a **allai fod yn gyfystyr â stelcio yn dibynnu ar gyd-destun yr ymddygiad, y cymhellion sy'n gyrru'r ymddygiad, a'r effaith ar y dioddefwr** yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cysylltu â phlant, partner, aelodau eraill o deulu, ffrindiau, cydweithwyr y dioddefwr neu drydydd partïon eraill.
